

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Ymgynghoriad Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Newidiadau Arfaethedig i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff

Mae'r arolwg hwn ar gael yn electronig:

www.ceredigion.gov.uk/ymgynghoriadau



Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformat arall, megis print bras neu â chefnidir wedi'i liwio. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01545 572572 neu e-bostiwch gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk .

Pam ydym ni yn trafod newid eich gwasanaeth casglu gwastraff?

Am fod angen i ni ailgylchu mwy

Er bod Ceredigion yn perfformio yn eithaf da, gall **hanner** y gwastraff sy'n cael ei roi mewn sachau duon **fod wedi ei ailgylchu** neu'i roi yn y bin gwastraff bwyd. Mae angen i ni ailgylchu mwy a delio gyda'n gwastraff bwyd mewn modd mwy cyfrifol.

Yn gyffredinol mae pobl yn cydnabod fod ailgylchu yn beth da ac mae'r mwyafrif ohonom yng Ngheredigion yn defnyddio'r sachau ailgylchu clir a'r biniau gwastraff bwyd mae'r Cyngor yn eu darparu. Mae hyn yn well i'r amgylchedd na rhoi ein gwastraff mewn sachau duon a'i anfon i gael ei drin neu'i roi mewn safle tirlenwi.

Mewn gwirionedd mae'n costio llawer mwy i ddelio â'r gwastraff sy'n cael ei roi mewn sachau duon. Os fyddai mwy o bobl yn defnyddio'r sachau ailgylchu clir a'r biniau gwastraff bwyd yn iawn, byddai'n golygu eich bod chi a'r Cyngor yn arbed arian a byddai'r amgylchedd hefyd yn elwa.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ailgylchu ac os na wnawn ni eu cyrraedd mae'n bosib y byddwn yn cael ein dirwyo. Byddai hynny'n golygu cwtogi ar wasanaethau'r Cyngor neu godi Treth y Cyngor i'r trigolion.

Sut ydym yn casglu gwastraff nawr

Ar hyn o bryd rydym yn darparu sachau ailgylchu clir ar gyfer ailgylchu papur, cardbord, y mwyafrif o blastig, caniau a chartonau. Mae'r rhain yn cael eu casglu o'ch cartref bob wythnos ac yn cael eu danfon i'w hailgylchu.

Rydym yn darparu cad i cegin a bin gwastraff bwyd am ddim ar gyfer gwastraff bwyd sydd wedi a heb ei goginio. Mae hwn hefyd yn cael ei gasglu'n wythnosol a'i droi yn danwydd a gwrtaith.

Rydym yn casglu sachau gwastraff du ar gyfer eich holl wastraff arall bob pythefnos heb unrhyw gyfyngiad ar y nifer o sachau.

Dydym ni ddim yn casglu gwydr o gwbl. Mae trigolion yn cael ei gofyn i fynd a'u poteli a jariau gwydr i sgipiau mewn meysydd parcio (o'r enw "banciau gwydr") neu i'r safle gwastraff cartref.

Dyma'r opsiynau yr ydym wedi'u hystyried

Rydym wedi ystyried newid y ffordd yr ydym yn casglu ailgylchu sych drwy ddarparu tair sach neu focs ar wahân a gofyn i drigolion wahanu eu deunydd ailgylchu yn y cartref, yn hytrach nai roi i gyd mewn un sach.

Rydym wedi ystyried rhoi cyfyngiad ar y nifer o sachau duon y gall bob cartref ei roi allan i'w gasglu (dwy sach bob pythefnos) er mwyn annog mwy o bobl i ailgylchu a defnyddio'r biniau gwastraff bwyd. Byddai trefniant neilltuol yn cael ei ystyried ar gyfer teuluoedd mawr.

Rydym wedi ystyried casglu sachau duon unwaith bob tair wythnos, heb gyfyngu ar y nifer o sachau, er mwyn annog mwy o bobl i ailgylchu a defnyddio'r bin gwastraff bwyd.

Rydym wedi ystyried casglu sachau duon unwaith bob tair wythnos a chyfyngu ar y nifer o sachau duon y gall pob cartref ei roi allan i'w gasglu (tair sach bob tair wythnos) er mwyn annog mwy o bobl i ailgylchu a defnyddio'r biniau gwastraff bwyd. Byddai trefniant neilltuol yn cael ei ystyried ar gyfer teuluoedd mawr.

Rydym wedi ystyried dechrau casglu poteli a jariau gwydr o'ch cartref, er mwyn annog mwy o ailgylchu.

Rydym wedi ystyried darparu leinwyr cadï cegin am ddim er mwyn gwneud y bin bwyd yn lanach ac yn haws ei ddefnyddio a'i gasglu.

Rydym wedi ystyried gwneud trefniadau ar wahân i gasglu cewynnau a gwastraff tebyg (er enghraifft, padiau ar gyfer anymataliaeth), pe byddai sachau duon yn cael eu casglu bob tair wythnos.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud?

Esboniad gan y Cynghorydd Ray Quant MBE Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Technegol a Chorfforaethol



“Mae rheoli gwastraff yn wasanaeth pwysig yr ydym ni gyd yn dibynnu arno. Wrth edrych ar opsiynau ar gyfer y dyfodol rydym wedi ceisio cadw rhannau o'r gwasanaeth yr ydych wedi dweud wrthym yn flaenorol yr ydych yn ei hoffi. Rydym yn bwriadu gwneud rhai gwelliannau yr ydych wedi gofyn amdano ac rydym yn ceisio cyfyngu ar y newidiadau i'r gwasanaeth sydd angen i'n helpu ni i gyrraedd y targedau ac osgoi talu dirwyon. Mae eich barn yn bwysig iawn i ni fel bod modd i ni ei gymryd i ystyriaeth wrth geisio gwneud penderfyniad, felly cymerwch ran yn ein harolwg os gwelwch yn dda.”

Rydym eisiau **dal i gasglu eich ailgylchu bob wythnos** mewn sachau clir gan ein bod ni'n meddwl mai dyma'r ffordd orau i bobl ailgylchu, ac rydych chi wedi dweud wrthym eich bod yn hoff o'r system yma.

Rydym eisiau **dal i gasglu eich gwastraff bwyd bob wythnos**. Byddwn yn dal i ddarparu eich cad i a'r biniau i chi eu defnyddio ac rydym am roi leinwyr gwastraff bwyd i'r cad i cegin am ddim er mwyn ei wneud yn haws a llai anniben i chi ailgylchu eich gwastraff bwyd. Bydd disgwyl i chi ddefnyddio'r leinwyr yma.

Dymunwn **ddarparu bocs ar gyfer poteli a jariau gwydr** a'u casglu unwaith bob tair wythnos i'w hailgylchu. Rydym yn sylweddoli nad yw pawb yn medru mynd a'u gwydr i'r sgipiau mewn meysydd parcio a safleoedd gwastraff cartref.

Ni fyddwn ond yn **casglu sachau duon unwaith bob tair wythnos**. Gan y gellir ailgylchu'r mwyafrif o wastraff, dylid ei roi yn y sachau ailgylchu clir neu yn y bin gwastraff bwyd. Rydym yn gobeithio wrth gasglu gwastraff unwaith bob tair wythnos y bydd mwy o bobl yn ailgylchu eu gwastraff ac y bydd hynny'n helpu'r amgylchedd, yn helpu'r Cyngor i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru, ac yn arbed arian i bawb.

Byddwn **yn cynnig casgliad arbennig unwaith bob pythefnos ar gyfer cewynnau a gwastraff tebyg** ar gyfer y bobl sydd ei angen.

Ymgynghoriad Cyhoeddus

Newidiadau Arfaethedig yn y Gwasanaeth Casglu Gwastraff

Hoffem glywed oddi wrthoch chi cyn inni wneud unrhyw benderfyniad terfynol am unrhyw newidiadau yn y gwasanaeth casglu gwastraff.

Rhowch wybod inni beth yw'ch barn chi drwy roi ✓ yn y blychau perthnasol isod.

Cwestiwn 1

Byddai'n well gen i gadw'r sachau ailgylchu clir ar gyfer yr ailgylchu sych.	
Byddai'n well gen i ddioli fy ailgylchu sych i nifer o wahanol sachau neu focsys.	

Cwestiwn 2

Byddai'n well gen i gael fy mhoteli a jariau gwydr wedi eu casglu o fy nghartref unwaith bob tair wythnos.	
Byddai'n well gen i gadw'r cyfleusterau presennol ar gyfer casglu poteli a jariau gwydr, hynny yw, banciau gwydr.	

Cwestiwn 3

Byddai'n well gen i gael fy sachau duon wedi eu casglu unwaith bob tair wythnos gyda chyfyngiad o dair sach i bob cartref.	
Byddai'n well gen i gael fy sachau duon wedi eu casglu unwaith bob tair wythnos heb gyfyngiad ar y nifer o sachau.	
Byddai'n well gen i gael fy sachau duon wedi eu casglu unwaith bob pythefnos gyda chyfyngiad o ddwy sach i bob cartref.	

Cwestiwn 4

Os yw'r Cyngor am gasglu sachau duon unwaith bob tair wythnos, bydd angen casgliad ychwanegol unwaith bob pythefnos ar gyfer cewynnau neu wastraff tebyg arnaf.	
Os yw'r Cyngor am gasglu sachau duon unwaith bob tair wythnos, byddai'n well gen i beidio â chael casgliad ychwanegol, ond yn hytrach bydd angen cynhwysydd ychwanegol arnaf i gadw cewynnau neu wastraff tebyg am gyfnod o dair wythnos.	
Ar hyn o bryd does gen i ddim cewynnau na gwastraff tebyg i'w gasglu.	

Cwestiwn 5

Dyma le ichi wneud unrhyw sylwadau am y newidiadau arfaethedig.

Diolch am gwblhau'r arolwg. Rydym yn gwerthfawrogi eich barn.

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Er mwyn monitro effeithiolrwydd ein Polisi Cydraddoldeb ac arferion, a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n deg i bawb ac yn rhydd o ragfarn, byddem yn ddiolchgar am eich cydweithrediad i ddarparu, yn gwbl wirfoddol, yr wybodaeth y gofynnir amdani isod.

Mae'r wybodaeth yn gyfrinachol ac yn ddiennw, a chaiff ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig. Mae'n cael ei datgysylltu o unrhyw ohebiaeth a geir gennych a chaiff ei dinistrio'n ddiogel ar ôl i ni nodi'r wybodaeth. Nid oes unrhyw ffordd y byddwn yn gallu olrhain eich ymatebion yn ôl i chi fel unigolyn.

1. Oedran: Beth yw eich grŵp oedran?

O dan 16	<input type="checkbox"/>	45 – 64	<input type="checkbox"/>
16 – 24	<input type="checkbox"/>	65+	<input type="checkbox"/>
25 – 44	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

2. Rhyw: Beth yw eich rhyw?

Gwryw	<input type="checkbox"/>	Benyw	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>

3. Trawsrywiol: Ydy'ch rhyw yn awr yr un fath â'r un a ddyrannwyd i chi ar eich genedigaeth?

Ydy	<input type="checkbox"/>	Na	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>
-----	--------------------------	----	--------------------------	-----------------------------	--------------------------

4. Cyfeiriadedd Rhywiol: Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun?

Heterorywiol / Strêt	<input type="checkbox"/>	Deurywiol	<input type="checkbox"/>
Dyn Hoyw	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>
Merch Hoyw / Lesbiad	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch os dymunwch)	<input type="checkbox"/>

Partneriaeth: Beth yw eich statws partneriaeth?

Sengl	<input type="checkbox"/>	Gweddw	<input type="checkbox"/>
Priod	<input type="checkbox"/>	Partner Sifil	<input type="checkbox"/>
Byw gyda Phartner	<input type="checkbox"/>	Wedi Gwahanu	<input type="checkbox"/>
Wedi Ysgaru	<input type="checkbox"/>	Arall	<input type="checkbox"/>
Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>		

6. Hunaniaeth Genedlaethol: Sut fydddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

Cymro / Cymraes	<input type="checkbox"/>	Prydeiniwr / Prydeinwraig	<input type="checkbox"/>
Sais / Saesnes	<input type="checkbox"/>	Gwyddel / Gwyddeles	<input type="checkbox"/>
Albanwr / Albanes	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>
Gwyddel / Gwyddeles o Ogledd Iwerddon	<input type="checkbox"/>	Arall (disgrifiwch)	

7. Grŵp Ethnig: Beth yw eich grŵp ethnig? Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu gefndir ethnig orau.

Gwyn	<input type="checkbox"/>	Teithwyr Sipsi	<input type="checkbox"/>
Asiaidd	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>
Du/Affricanaidd/Caribiaidd	<input type="checkbox"/>	Unrhyw gefndir arall (nodwch)	
Cymysg	<input type="checkbox"/>		

8. Iaith: Beth yw eich dewis iaith?

Cymraeg

Gwell gennyf beidio â dweud

Saesneg

Arall (yn cynnwys iaith Arwyddion Prydain)

Ydych chi'n deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

Deall Cymraeg llafar

Ysgrifennu Cymraeg

Siarad Cymraeg

Dim un o'r uchod

Darllen Cymraeg

Gwell gennyf beidio â dweud

9. Anabledd: A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd

Oes

Nac Oes

Gwell gennyf beidio â dweud

Os ydych wedi ateb 'oes', nodwch yr hyn sy'n berthnasol i chi:

Nam ar y Clyw

Materion Iechyd Meddwl

Nam ar y Golwg

Nam Corfforol / Symudedd

Nam Lleferydd

Gwell gennyf beidio â dweud

Anabledau Dysgu

Arall (nodwch)

10. Cyfrifoldebau Gofalu: Ydych chi'n gofalu am rywun neu'n darparu cymorth neu gefnogaeth i aelodau'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill oherwydd:

- Cyflwr iechyd / anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor; neu
- Problemau yn ymwneud â henaint

Ydw

Nac

Ydw

Gwell gennyf beidio â dweud

11. Crefydd neu Gred: Beth yw eich crefydd?

Cristion (pob enwad)	<input type="checkbox"/>	Iddew	<input type="checkbox"/>
Bwdhydd	<input type="checkbox"/>	Anffyddiwr	<input type="checkbox"/>
Hindŵ	<input type="checkbox"/>	Dim Crefydd	<input type="checkbox"/>
Mwslim	<input type="checkbox"/>	Gwell gennyf beidio â dweud	<input type="checkbox"/>
Sikh	<input type="checkbox"/>	Arall	<input type="checkbox"/>

Diolch am lenwi'r ffurflen hon

**Dychwelwch eich ymateb wedi'i gwblhau erbyn
Dydd Gwener 22 Rhagfyr 2017 at:**

Y Tîm Rheoli Gwastraff
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Cysylltwch â ni:

Drwy e-bost: gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk

Dros y ffôn: 01545 572572